

## **DATGANIAD O FESURAU ARBENNIG: LITHWANIA**

### **RHEOLIADAU'R FASNACH MEWN ANIFEILIAID A CHYNHYRCHION PERTHYNOL (CYMRU) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252)**

Mae gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, sail resymol dros amau bod Salmonela yn bresennol yn Lithwania, gan olygu bod anifeiliaid a chynhyrchion penodol sy'n tarddu neu'n cael eu hanfon o Lithwania yn debygol o beri risg i iechyd pobl neu iechyd anifeiliaid.

Drwy arfer y pwerau a roddir gan reoliad 29(1) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011<sup>1</sup>, mae Gweinidogion Cymru yn datgan bod y mesurau arbennig a ganlyn yn angenrheidiol yng Nghymru er mwyn atal y risg i iechyd pobl neu iechyd anifeiliaid:

#### **Atal dros dro fynediad i anifeiliaid a chynhyrchion penodol i Gymru**

1. Mae mynediad i Gymru wedi ei atal dros dro mewn cysylltiad â'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid (na fwriedir i bobl eu bwyta) a ganlyn sy'n tarddu neu'n cael eu hanfon o Lithwania:

- a. llygod a llygod mawr a rhannau ohonynt

#### **Dehongli**

2. Ym mharagraff 1 o'r Datganiad hwn:

- a. mae i "sgil-gynhyrchion anifeiliaid" yr un ystyr ag sydd i "animal by-products" yn Erthygl 3 o Reoliad (EC) 1069/2009<sup>2</sup>.

#### **Dod i rym a hyd y mesurau arbennig**

---

<sup>1</sup> O.S. 2011/2379 (Cy. 252). Amnewidiwyd rheoliad 29 gan O.S. 2020/44 (Cy. 5) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1612 (Cy. 337).

<sup>2</sup> EUR 1069/2009.

3. Daw'r mesurau arbennig y cyfeirir atynt yn y Datganiad hwn i rym drannoeth y diwrnod y gwneir y Datganiad. Bydd y mesurau arbennig yn parhau'n gymwys hyd nes y caiff y Datganiad hwn ei ddirymu neu ei ddiwygio gan ddatganiad arall.

Dyddiad gwneud: 09:00 16/02/2022

Llofnodwyd

Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru

O dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru.

***Mae mewnforio anifeiliaid neu gynhyrchion yn groes i'r Datganiad hwn yn drosedd o dan reoliad 39 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.***